# Y Pwyllgor Is-ddeddfwriaeth

## (SLC(3)-14-08)

### SLC158

### Adroddiad y Pwyllgor Is-ddeddfwriaeth

O dan Reol Sefydlog 15.2 bydd y Cynulliad yn cael ei wahodd i roi sylw arbennig i'r offeryn a ganlyn.

### Teitl: Rheoliadau Grantiau a Benthyciadau Dysgu y Cynulliad (Addysg Uwch) (Cymru) 2008

Mae'r Rheoliadau hyn yn darparu ar gyfer cymorth ariannol i fyfyrwyr sy'n preswylio fel arfer yng Nghymru ac sy'n dilyn cyrsiau addysg uwch dynodedig mewn perthynas â blynyddoedd academaidd sy'n dechrau ar neu ar ôl 1 Medi 2008. Maent yn cydgrynhoi, gyda rhai newidiadau, Reoliadau Grantiau a Benthyciadau Dysgu y Cynulliad (Addysg Uwch) (Cymru) 2007, fel y'u diwygiwyd.

### Gweithdrefn: Negyddol

Nodwyd y pwyntiau a ganlyn i fod yn destun adroddiad o dan Reol Sefydlog 15.2.

Mae testun Cymraeg rheoliad 4(7) yn ddatganiad nad oes iddo ganlyniad amlwg. Gan fod y testun Saesneg yn eglur, mae'n ymddangos bod angen diwygio'r testun Cymraeg er mwyn sicrhau bod effaith y ddau destun yr un fath. [Rheol Sefydlog 15.2(vii)].

Mae Rheoliad 7(2) yn cynnwys croesgyfeiriad at baragraffau (4) a (5). Mae'n ymddangos y dylai gynnwys croesgyfeiriad at baragraff (3) hefyd. [Rheol Sefydlog 15.2(vi)].

Mae Rheoliad 21(1) yn cynnwys croesgyfeiriad at baragraff (9), ond nid oes paragraff o'r fath yn bodoli. Nid yw'r bwriad yn eglur. [Rheol Sefydlog 15.2(vi)].

Mae Rheoliad 27(6)(b) yn cynnwys croesgyfeiriad at "uchafswm wythnosol perthnasol ym mharagraff (4)", ond nid yw paragraff (4) yn cyfeirio at symiau wythnosol. Efallai mai'r bwriad oedd cyfeirio at baragraff (5). [Rheol Sefydlog 15.2(vi)].

Mae Rheoliad 30(f) yn y testun Cymraeg (30(h) yn y testun Saesneg) yn cynnwys croesgyfeiriad at ei hun, a hynny'n gwbl ddiystyr. Nid yw'n eglur a ddylai fod wedi cyfeirio at baragraff gwahanol neu a ddylai fod wedi cael ei ddileu. [Rheol Sefydlog 15.2(vi)].

Mae Rheoliad 38(7) yn cynnwys croesgyfeiriad at ei hun a hynny'n gwbl ddiystyr. Nid yw'n eglur a ddylai fod wedi cyfeirio at baragraff gwahanol neu a ddylai fod wedi cael ei ddileu. [Rheol Sefydlog 15.2(vi)].

### Mae'r Llywodraeth wedi ymateb fel a ganlyn:-

Mae'r Llywodraeth wedi nodi ei bod yn derbyn y pwyntiau adrodd a grybwyllir uchod, ond nid yw'n bwriadu cymryd unrhyw gamau ar hyn o bryd gan fod y Rheoliadau'n mynd i gael eu diwygio o fewn y 6 mis nesaf.

Cynghorwyr Cyfreithiol
Y Pwyllgor Is-ddeddfwriaeth
Mai 2008